



## Hysbysiad i Ganolfannau

### Canllawiau i ganolfannau ar ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth

#### Cynhyrchwyd ar ran AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

Gall darllenwyr ddadgodio symbolau a thalfyriadau uned mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth i ymgeiswyr sydd angen y trefniant hwn er mwyn cael mynediad i'r arholiad a lle mae'n adlewyrchu eu ffordd arferol a chyfredol o weithio yn y ganolfan.

Byddem yn disgwyl i hyn fod ar gyfer ymgeisydd nad yw'n gallu cyrchu unrhyw destun na symbolau mewn cwestiynau yn annibynnol mewn cwestiynau. Er enghraifft, ni all ymgeisydd sydd â nam sylweddol ar y golwg na all ddarllen Braille, gael mynediad at ddiagramau cyffyrddol neu, oherwydd difrifoldeb eu nam, ni all gael mynediad at y papurau safonol wedi'u haddasu a'u mwylhau.

Ni fyddai disgwyl i ddarllenydd ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau ar gyfer mwyafrif yr ymgeiswyr ag anawsterau dysgu neu anableddau eraill (a fyddai'n gallu darllen y symbolau/rhifau unigol). Yn yr achos hwn, byddai'r darllenydd yn pwyntio at y symbol.

Ystyr y term 'dadgodio' yw enwi'r symbol. Nid yw'n golygu esbonio pryd neu sut mae'r symbol yn cael ei ddefnyddio neu ddisgrifio'r symbol.

#### Enghreifftiau o ddadgodio:

356	mae'r darllenydd yn dweud 'tri chant a phum deg chwech'
CO <sub>2</sub>	mae'r darllenydd yn darllen pob llythyren/rhif
2 <sup>2</sup>	mae'r darllenydd yn dweud 'dau wedi'i sgwario'
≤	mae'r darllenydd yn dweud 'llai na neu'n hafal i'
∈	mae'r darllenydd yn dweud 'yn elfen o'
∞	mae'r darllenydd yn dweud 'anfeidredd'
$\sqrt[3]{}$	mae'r darllenydd yn dweud 'trydydd isradd'
θ	mae'r darllenydd yn dweud 'Theta'
∫	mae'r darllenydd yn dweud 'Integryn'

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod darllenwyr wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn gallu dadgodio symbolau a thalfyriadau unedau yn gywir.